# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 73(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 I'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Plant yn Gyntaf / Children First

## 4 I'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Inswleiddio Waliau Ceudod yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

## 5 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(60 munud)

**NDM6323** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Gosodwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 12 Rhagfyr 2016.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 24 Mai 2017.

**Dogfennau Ategol**
Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Cynnig i dderbyn y penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(5 munud)

**NDM6324** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 7 Dadl: Yr adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6321** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod yr adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru wedi'i gyhoeddi.

2. Yn cytuno bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yn chwarae rhan allweddol:

a) fel lleoedd gwerthfawr ar gyfer natur ac fel lleoedd sy'n creu budd i'r cyhoedd a budd preifat drwy wahanol wasanaethau; a

b) o safbwynt rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chefnogi cymunedau gwledig bywiog.

3. Yn cytuno bod gwerth arbennig i bob tirwedd, sydd ynghlwm wrth y syniad o fro, sydd wrth wraidd hunaniaeth cymuned a'r modd y mae llawer o bobl yng Nghymru'n mynegi eu teimlad unigryw o berthyn i le penodol."

'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu nad yw'r adroddiad yn ymdrin ag Egwyddor Sandford fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

'Deddf yr Amgylchedd 1995'

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Parciau Cenedlaethol fynd trwy'r Cynulliad fel deddfwriaeth sylfaenol.

## 8 Tynnwyd yn ôl - Dadl: Y Fframwaith Nyrsio Ysgolion

**NDM6320** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Y Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru 2017 wedi'i gyhoeddi.

2. Yn nodi i'r fframwaith gael ei gyhoeddi gyda nyrsys ysgol rheng flaen ac iddo gymryd i ystyriaeth yn uniongyrchol, farn plant oedran ysgol.

3. Yn nodi bod nyrs ysgol wedi'i henwi ym mhob ysgol uwchradd a'r ysgol gynradd fwydo gysylltiedig ar hyn o bryd a bod y fframwaith yn cymeradwyo bod gan blant ysgol yng Nghymru fynediad estynedig drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys gwyliau ysgol ac yn cynnwys safonau cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaethau.

4. Yn nodi bod y fframwaith yn elfen allweddol ac yn sail i Raglen Plant Iach Cymru (0-7 oed) a bod posibilrwydd y caiff ei estyn i grwpiau oedran hŷn.

'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru 2017'

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 7 Mehefin 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Mehefin, 2017 i'w hateb ar 6 Mehefin 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw asesiad y Prif Weinidog o effeithiau dim cytundeb fasnach â'r UE ar Gymru? OAQ(5)0635(FM)

**2. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan Lywodraeth Cymru yr holl wybodaeth sydd ei hangen arni, bellach, i wneud penderfyniad ynghylch darparu'r cymorth ariannol y gwnaeth hyrwyddwyr Cylchffordd Cymru gais amdano? OAQ(5)0636(FM)

**3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth yn Ynys Môn? OAQ(5)0637(FM)**W**

**4. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch gweithfeydd Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr? OAQ(5)0638(FM)

**5. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(5)0634(FM)

**6. Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi ymwybyddiaeth ynghylch dementia yng Nghymru? OAQ(5)0633(FM)

**7. Hannah Blythyn (Delyn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y tai fforddiadwy yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0632(FM)

**8. David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru? OAQ(5)0625(FM)

**9. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau gofal sylfaenol yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0639(FM)

**10.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amseroedd aros dilynol ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid i gleifion allanol yn ysbytai Cymru? OAQ(5)0628(FM)

**11.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi twristiaeth yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0630(FM)

**12.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu triniaeth ar gyfer pobl sydd â chanser y prostad? OAQ(5)0626(FM)

**13.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu a yw Llywodraeth Cymru wedi cael cadarnhad o ymrwymiad Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe? OAQ(5)0623(FM)

**14.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i brosiectau sy'n dathlu hanes yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0624(FM)

**15.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y flaenoriaeth gymharol y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ariannu'r GIG o'i chymharu â gwariant arall y llywodraeth? OAQ(5)0629(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 13 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Fframwaith Polisi Treth (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Dyfodol Llwyddiannus: Y Diweddaraf ar Ddigidol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Y Diweddaraf ynglŷn â Band Eang Cyflym Iawn (45 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod - y Bil Awtistiaeth (Cymru) (Paul Davies) (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Fer - Jeremy Miles (Castell-nedd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau: Ymgynghoriad Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: TB Buchol (45 munud)
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (120 munud)

**Dydd Mercher 21 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Fer – Vikki Howells (Cwm Cynon) (30 munud)

**Dydd Mawrth 27 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Deddfwriaeth a Pholisi yr Amgylchedd Hanesyddol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Diweddariad ar Wasanaeth Braenaru 111 y GIG yng Nghymru (30 munud)
- Dadl: Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 28 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ei adroddiad ar ddyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): (30 munud)